

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

(FFORDD LLANTRISANT, TONYREFAIL)

GORCHYMYN (AMRYWIO A CHYFYNGIADAU AROS) 2022.

HYSBYSIAD (CROESFAN I GERDDWYR) (A MESURAU ARAFU TRAFFIG) 2022

DYMA HYSBYSIAD bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn bwriadu gwneud Gorchymynion amrywiol o dan Adrannau 1, 2, 4 a 23 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984 ("y Ddeddf"), ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol ag Adran 23(2)(a) o'r Ddeddf honno, ac wedi hysbysu Llywodraeth Cymru mewn ysgrifen, a phob pŵer galluogi arall, a'i effaith fydd:

1. Amrywio'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig wedi'i nodi yn Atodlen 1
2. Cyflwyno'r cyfyngiadau aros wedi'u nodi yn Atodlen 2
3. Cyflwyno Croesfan Pâl i Gerddwyr yn y lleoliad sydd wedi'i bennu yn Atodlen 3

DYMA HYSBYSIAD bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, o dan Adrannau 90A, 90C a 90G o Ddeddf Priffyrdd 1980, Rheoliadau Priffyrdd (Twmpathau Ffyrdd) 1999 a Rheoliadau Priffyrdd (Arafu Traffig) 1999, a phob pŵer galluogi, yn bwriadu cyflwyno'r mesurau arafu traffig canlynol:

4. Darparu twmpath ffordd gyda phen gwastad (rhwng 25mm a 100mm o uchder) yn y lleoliad sydd wedi'i nodi yn Atodlen 3, neu yn ei gyffiniau

Mae modd archwilio copi o'r dogfennau perthnasol ar-lein: www.rctcbc.gov.uk

Rhaid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig arfaethedig ynghyd â'r rhesymau drostyn nhw, mewn ysgrifen, at y Rheolwr Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU, neu drwy e-bost: GwasanaethauTraffig@rctcbc.gov.uk erbyn 15 Gorffennaf 2022

ATODLEN 1 – Amrywio

1. Bydd "Gorchymyn (Cydgrynhoi) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio ar ochr y Ffordd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2012" yn dileu'r Gorchymyn canlynol yn ei gyfanrwydd:
 - a. "Gorchymyn (Ffordd Llantrisant a'r Ffordd Fynediad Ddi-enw sy'n Arwain at Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg, Tonyrefail) (Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2008"


ATODLEN 2 – Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg

1. Ochr dde-ddwyreiniol y ffordd fynediad ddi-enw sy'n arwain at Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg, o'i chyffordd â Ffordd Llantrisant i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 3 metr
2. Ochr ogledd-orllewinol y ffordd fynediad ddi-enw sy'n arwain at Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg, o'i chyffordd â Ffordd Llantrisant, i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 10 metr
3. Ochr ogledd-ddwyreiniol Ffordd Llantrisant, o bwynt sydd 49 metr i'r de-ddwyrain o ochr ddeheuol ei chyffordd â'r ffordd fynediad ddi-enw sy'n arwain at Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg, i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 123 metr
4. Ochr dde-orllewinol Ffordd Llantrisant, o bwynt sydd 49 metr i'r de-ddwyrain o ochr ddeheuol ei chyffordd â'r ffordd fynediad ddi-enw sy'n arwain at Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg, i gyfeiriad y gogledd-orllewin am bellter o 131 metr
5. Ochr ogleddol Y Rhodfa o'i chyffordd â Ffordd Llantrisant, i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 21 metr
6. Ochr ddeheuol Y Rhodfa o'i chyffordd â Ffordd Llantrisant, i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 28 metr

ATODLEN 3 - Croesfan Pâl i Gerddwyr ar Dwmpath Ffordd gyda Phen Gwastad

1. Ffordd Llantrisant, Tonyrefail ar bwynt sydd 32 metr i'r de-ddwyrain o'r ochr ddeheuol o'i chyffordd â'r Rhodfa

Dyddiad 24 Mehefin 2022



Andrew Wilkins
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, CF40 2XX

RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL

(LLANRISANT ROAD, TONYREFAIL)

(VARIATION AND WAITING RESRICTIONS) ORDER 2022,

(PEDESTRIAN CROSSING) AND TRAFFIC CALMING MEASURES) NOTICE 2022

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Rhondda Cynon Taff County Borough Council propose to make various Orders under Sections 1, 2, 4 and 23 of the Road Traffic Regulation Act 1984 ("the Act"), after consultation with the Chief Officer of Police in accordance with Section 23(2)(a) of the said Act and having notified the Welsh Government in writing and of all other enabling powers, the effect of which will be to:

1. Vary the Traffic Regulation Order specified in Schedule 1
2. Introduce waiting restrictions as specified in Schedule 2
3. Introduce a Zebra Pedestrian Crossing at the location specified in Schedule 3

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Rhondda Cynon Taff County Borough Council propose under Sections 90A, 90C and 90G of the Highways Act 1980, the Highways (Road Humps) Regulations 1999 and the Highways (Traffic Calming) Regulations 1999 and all enabling powers, to implement the following traffic calming measures:

4. Flat Top Road Hump (between 25 – 100mm in height), to be provided at, or within the vicinity of the location specified in Schedule 3

A copy of the relevant documents may be inspected online at www.rctcbc.gov.uk

Objections to the proposal together with the grounds on which they are made must be sent in writing to the Traffic Manager, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or by email on trafficservices@rctcbc.gov.uk by 15th July 2022

SCHEDULE 1 – Variation

1. The "Rhondda Cynon Taff County Borough Council (Prohibition and Restrictions of Waiting and Loading and On Street Parking Places) (Consolidation) Order 2012" shall be varied by the removal of the following Order in its entirety:
 - a. The "Rhondda Cynon Taff County Borough Council (Llantrisant Road and the Unnamed Access Road Leading to Tref-Y-Rhyg Primary School, Tonyrefail) (Prohibition of Waiting At Any Time) Order 2008"


SCHEDULE 2 – Prohibition of Waiting At Any Time

1. The south-eastern side of the unnamed access road leading to Tref-Y-Rhyg Primary School from its junction with Llantrisant Road, south-westwards for a distance of 3 metres
2. The north-western side of the unnamed access road leading to Tref-Y-Rhyg Primary School from its junction with Llantrisant Road, south-westwards for a distance of 10 metres
3. The north-eastern side of Llantrisant Road, from a point 49 metres south-east of the southern side of its junction with the unnamed access road leading to TrefY-Rhyg Primary School, north-westwards for distance of 123 metres
4. The south-western side of Llantrisant Road from a point 49 metres south-east of the southern side of its junction with the unnamed access road leading to Tref-Y-Rhyg Primary School, north-westwards for a distance of 131 metres
5. The northern side of The Avenue from its junction with Llantrisant Road, westwards for a distance of 21 metres
6. The southern side of The Avenue from its junction with Llantrisant Road, westwards for a distance of 28 metres

SCHEDULE 3 – Raised Zebra Pedestrian Crossing on a Flat Top Road Hump

1. Llantrisant Road, Tonyrefail at a point 32 metres south east of the southern side of its junction The Avenue

Dated 24 June 2022



**Andrew Wilkins
Director of Legal Services
The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, CF40 2XX**